**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (64)**

**Dydd Mawrth, 30 Ebrill 2002**

**AGENDA**

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
Datganiad: Llwyddiant Cynllun Elite Cymru a'r Cyngor Chwaraeon i gynyddu nifer yr hyfforddwyr yng Nghymru

**Eitem 3**
Datganiad: Ynni

**Eitem 4**
**Datganiad Busnes: Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 5**
**Adroddiad Grant Arbennig ar ffyrdd arloesol o gyflwyno addysg mewn amgylchedd gwledig ac i gynorthwyo awdurdodau lleol i baratoi data nifer disgyblion unigol**
NDM1038 - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 6) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Ebrill 2002.

Cliciwch yma i weld Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 6) (Cymru) 2002 - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

**Eitem 6**
**Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru**
NDM1039 - Mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn nodi mawr bwysigrwydd darlledu i ansawdd bywyd y werin, i hunaniaeth ddiwylliannol

Cymru ac i iechyd ein democratiaeth.

2. Yn cydnabod yr angen am wasanaeth cenedlaethol integredig, gan gynnwys sianel deledu Saesneg i Gymru.

3. Yn derbyn mewn egwyddor briodoldeb trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarlledu a thelegyfathrebu yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol.

4. Yn cefnogi yn y cyfamser ddwyn y BBC o dan oruchwyliaeth OFCOM ac i sicrhau cynrychiolaeth Gymreig ar OFCOM.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu astudiaeth drwyadl o'r opsiynau ar gyfer darlledu yng Nghymru, gan gynnwys dulliau cyllido ac ystyriaethau cyfreithiol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*
(1)
(2)+(3)+(4)

**Gwelliant 1 - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Dileu popeth ar ôl pwynt 1, ac yn ei le rhoi:

2. Yn cydnabod yr angen i sicrhau bod y gwasanaeth darlledu Saesneg a Chymraeg yn cynnig mynediad a darpariaeth o safon uchel yn ystod y cyfnod trosglwyddo o analog i ddigidol.
3. Yn cydnabod y bydd Darlledu yn cael ei ystyried gan y Comisiwn ar Bwerau'r Cynulliad dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Richard.
4. Yn cefnogi'r angen am gynrychiolaeth Gymreig ar OFCOM.
5. Yn galw ar y Gweinidog Diwylliant i gomisiynu astudiaeth o ddarlledu yng Nghymru dan nawdd Cymru'n Creu.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn cydnabod cyfraniad sylweddol S4C i ddarlledu yng Nghymru ac i ddatblygiad ein diwylliant cenedlaethol.

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn cydnabod cyfrifoldeb y prif ddarlledwyr i ddarparu gwasanaeth rhaglenni a gwasanaeth

newyddion cynhwysfawr a chytbwys ar gyfer Cymru.

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddwyn pwysau o blaid rhoi'r cyfle i bob rhan o Gymru allu derbyn sianeli teledu a radio Cymreig.

**Eitem 7**
**Dadl Fer**
***NDM1026* Jonathan Morgan (Canol De Cymru): Cyfranogiad Pobl Ifanc mewn Gwleidyddiaeth (*wedi'i haildrefnu o 18 Ebrill 2002)***

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 2 Mai 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**